Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Abergwaun

**Canolfan Hamdden Abergwaun**
**SA65 9DT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Abergwaun

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Abergwaun |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Abergwaun |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Chris Sheldon |
| Person â gofal | Samantha Watson |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 14 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 13 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Ddydd Mercher 9-12.00<br>Dydd Iau 9.00-12.30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ionawr 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05/11/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Fe wnaethom hysbysu'r darparwr am Feysydd i'w Gwella lle nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Ni chyflwynwyd rhybudd, ond nodwyd bod y rhain yn feysydd i'w gwella, a rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fynd i'r afael â'r rhain. Bydd gwybodaeth am yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei chynnwys mewn Crynodeb Camau Gwella a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn fwy effeithol i gynllunio camau nesaf plant unigol.

A2 Ymdrin â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae mwyafrif y plant yn cyfathrebu'n hyderus â ymarferwyr, ac ar y cyfan, mae eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn dda. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn aml am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis ble i fynd o fewn y lleoliad a pha weithgareddau i ymgymryd â nhw.

Mae bron bob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfarwydd â threfniadau'r bore. Mae'r rhan fwyaf yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd ac yn trosglwyddo o'u rhieni neu ofalwyr heb drafferth. Mae'r ychydig iawn sy'n ansicr yn ymlacio'n gyflym wedi iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr. Mae'r plant yn mwynhau symud o un weithgaredd i'r nesaf ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau priodol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn chwarae yn y gegin gan ddynwared paratoi bwyd i'r ymarferydd. Yn ogystal, maent yn dewis eistedd wrth ochr eu ffrindiau yn ystod amser byrbryd ac amser cylch.

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn modd cadarnhaol, ar y cyfan. Mae'r mwyafrif yn chwarae ochr wrth ochr â'i gilydd yn gytûn, gyda rhai yn dechrau cyd-chwarae ag eraill, er enghraifft wrth gynorthwyo ei gilydd i adeiladu bocs mawr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol iawn ag ymarferwyr ac yn mynd at ymarferwyr i'w cynnwys yn eu chwarae neu am gysur. Mae ychydig o blant yn dechrau dangos empathi.

Mae mwyafrif y plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae. Maent yn cael cyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain ac yn canolbwyntio am gyfnodau priodol. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio papur a phensil o'r caffi i greu rhestr wrth gerdded o gwmpas yr ystafell cyn mynd yn ôl i'r caffi. Mae'r plant yn hapus yn eu chwarae ac yn dangos balchder wrth iddynt gwblhau tasgau. Er enghraifft, mae plant yn gwenu a chwerthin pan maent yn creu swigod a syllu arnynt yn hedfan i ffwrdd yn y gwynt. Mae mwyafrif y plant yn mwynhau sgwrsio â'r ymarferwyr yn ystod eu chwarae ac amser byrbryd.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell ac yn yr ardal allanol. Mae rhai plant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth priodol ac yn cael cyfleoedd priodol i ymarfer medrau, er enghraifft yn ystod amser snac, wrth iddynt olchi eu dwylo neu fynd i'r tŷ bach.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u hoed a'u gallu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Ar y cyfan, maent yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn dda drwy rannu a chymryd tro wrth chwarae gêm siopa gyda chymorth ymarferydd.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau llythrennedd a chyfathrebu yn foddhaol. Ar y cyfan, maent yn datblygu eu medrau gwrando yn dda ac yn gwrando'n briodol ar gyfarwyddiadau syml. Er enghraifft, maent yn chwarae gêm chwilio yn gywir drwy wrando'n ofalus ar ymarferwyr ac yn dod o hyd i wrthrychau penodol. Mae lleiafrif y plant yn dechrau datblygu eu medrau llafar yn effeithiol drwy ddefnyddio geirfa syml yn gywir mewn cyd-destunau gwahanol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o offer creu marciau yn bwrpasol, er enghraifft drwy gymryd archeb bwyd yn y caffi. Mae llawer o'r plant yn edrych ar ac yn trafod llyfrau yn dda drwy ailadrodd stori gyda ffrind neu gyda'r doliau ar y soffa.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer digidol yn effeithlon ac i bwrpas, er enghraifft drwy ddefnyddio gliniadur yn y caffi a defnyddio ffôn i gael sgwrs gyda ffrind. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis ac yn defnyddio adnoddau mathemategol yn briodol wrth ddatrys problemau yn ymarferol. Er enghraifft, maent yn dangos ymwybyddiaeth berthnasol o siapiau 2D wrth iddynt osod siapiau yn y bylchau cywir wrth gwblhau jigso.

Mae bron bob un o'r plant yn arddangos medrau corfforol da iawn. Maent yn weithgar yn gorfforol yn unol â'u gallu, er enghraifft wrth iddynt gydbwyso ar draws y camau cerdded. Mae mwyafrif y plant yn arddangos dycnwch a dyfalbarhad cynyddol wrth iddynt ddatrys problemau. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau'n dda wrth adeiladu rhwystr gan ddefnyddio blociau pren er mwyn i gerbydau bach fedru teithio i fyny ac i lawr. Mae lleiafrif y plant yn mynegi eu hunain yn briodol trwy amrywiaeth o gyfryngau fel celf, cerddoriaeth a dawns ac yn arddangos mwynhad yn gwisgo fel tywysogesau ac archarwyr.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n barhaus ar gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau'n dda ac yn gweithredu gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol er mwyn cadw’r plant yn ddiogel. Mae gan staff dystysgrifau cymorth cyntaf, diogelu ac hylendid bwyd cyfredol, gyda threfniadau clir ar waith yn barod ar gyfer adnewyddu’r hyfforddiant. Mae’r ymarferwyr yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn neu ymarferydd. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau neu salwch. Maent yn cadw cofnodion cywir ac yn dilyn gweithdrefnau effeithiol o ran diogelwch. Er enghraifft, wrth baratoi i fynd tu allan, mae staff yn sicrhau bod gan bob plentyn bartner, eu bod yn canolbwyntio ar yr arweinwyr ac yn sefyll ar draws y llinell er mwyn goruchwylio’n effeithiol. Mae staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n bwrpasol yn arferion dyddiol y plant. Er enghraifft, maent yn dilyn trefn gadarn wrth newid cewynnau plant, gan sicrhau eu bod yn newid menig a ffedog rhwng pob newidiad a glanhau’r mat gyda chwistrellydd gwrthfacteria bob tro. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Mae ymarferwyr yn siarad â'r plant ar eu lefel nhw ac yn dangos cynhesrwydd a pharch gwirioneddol atynt. Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y lleoliad ac yn modelu ymddygiad yn dda. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant am rannu teganau ac yn aros eu tro cyn defnyddio offer. Mae'r ymarferwyr yn gwrando ar ac yn parchu barn y plant ac maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant yn effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn gweithio’n briodol i fodloni eu gofynion unigol. Mae llawer o ymarferwyr yn darparu ystod briodol o weithgareddau chwarae. Maent yn cefnogi plant trwy greu lle iddynt chwarae ynddo ac yn llwyddo i ymgorffori egwyddorion chwarae yn y ddarpariaeth yn briodol. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd addas i’r plant ddatblygu amrywiaeth o fedrau, er enghraifft medrau corfforol manwl a bras, medrau mathemategol, medrau cyfathrebu a medrau personol. Mae llawer o'r ymarferwyr yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol yn dda.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol

Mae’r ymarferwyr yn llwyddo i greu ethos cartrefol iawn mewn neuadd fawr, bob sesiwn. Maent yn darparu profiadau sy’n bodloni anghenion chwarae y plant yn llwyddiannus drwy osod adnoddau addas yn yr ardaloedd i’w symbylu. Er enghraifft, maent yn defnyddio pabell a deinosoriaid i greu ardal sy’n denu ac yn sbarduno diddordeb y plant. Maent yn gwneud defnydd da o’r ardal allanol ac yn ymuno yn chwarae’r plant, er enghraifft drwy chwifio ffyn swigod yn y gwynt.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau digidol, er enghraifft trwy ddefnyddio gliniadur a ffonau digidol yn y caffi yn ddychmygus. Yn gyffredinol, mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd cynnar y plant yn addas. Yn yr arfer orau, mae’r ymarferwyr yn modelu iaith gywir ac yn bwydo geirfa yn dda, er enghraifft drwy ofyn am beth maent eisiau ei fwyta yn y caffi. Fodd

bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn gyson, ac o ganlyniad, nid yw plant yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg yn ddigon effeithiol. Mae ymarferwyr yn darparu ystod dda o lyfrau deniadol a lliwgar ym mhob ardal, sy'n annog y plant i ymgysylltu â nhw ac i godi eu hymwybyddiaeth a diddordeb mewn llyfrau yn briodol.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn addas. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru drwy ddathlu diwrnodau arbennig fel diwrnod Shwmae Su'mae a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r ymarferwyr yn rhoi clod pwrpasol i'r plant, sy'n hybu eu hunanhyder ac yn dangos iddynt eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn effeithiol, er enghraifft drwy ofyn iddynt ystyried y plant sy'n cysgu ac osgoi chwarae'n rhy swnllyd. Maent yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu plant i wahaniaethu rhwng da a drwg yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i blant gymryd cyfrifoldeb ac i ddatblygu dealltwriaeth o gydweithredu a rhannu gydag eraill, er enghraifft drwy helpu i olchi y llestri ar ôl byrbryd.

Mae'r ymarferwyr yn chwarae wrth ochr y plant ac yn cefnogi eu chwarae yn effeithiol. Ar adegau, maent yn defnyddio eu harsylwadau yn foddhaol gan adnabod y cam nesaf yn natblygiad y plant. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ar draws y ddarpariaeth, sy'n golygu nad yw'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol i ddatblygu'r camau nesaf yn natblygiad y plant er mwyn eu hymestyn i gyrraedd eu gwir potensial.

Mae'r ymarferwyr yn trefnu amrywiaeth o ymweliadau buddiol i'r plant. Maent yn mynd ar deithiau i barc a choedwig ac yn ymweld â siop leol yn rheolaidd. Yn dilyn sgyrsiau gyda'r plant am y traeth, trefnodd yr ymarferwyr daith iddynt ar y bws i Wdig. Maent yn croesawu ymwelwyr gwahanol i'r lleoliad hefyd, fel yr heddlu a'r frigâd dân. Mae hyn i gyd yn datblygu medrau cymdeithasol y plant yn llwyddiannus.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac, o ganlyniad, maent yn hybu diogelwch a llesiant y plant yn effeithiol. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae'r arweinwyr yn diweddaru amrywiaeth o asesiadau risg pwrpasol yn rheolaidd ac yn eu gweithredu'n effeithiol. Cynhelir ymarfer tân yn rheolaidd ac mae'r offer diffodd tân a'r offer trydanol yn cael eu gwirio'n flynyddol. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'u rôl ac yn cwblhau asesiadau risg gweledol yn ddyddiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar iawn, gyda gwaith y plant yn cael ei arddangos ar fyrddau isel sy'n hybu teimlad o gyd-berthyn. Maent wedi trefnu'r tu fewn yn effeithiol sy'n cynnig amgylchedd croesawgar ac agored. Er enghraifft, maent yn trefnu'r amgylchedd fel bod lle i eistedd wrth fwrdd neu ar y llawr i chwarae, lle i symud ac ardal i blant cael amser tawel. Mae'r amgylchedd yn galluogi plant i gael mynediad rhwydd i ardaloedd chwarae diddorol, cyfarpar o safon a chyfleusterau pwrpasol. Mae'r ardal allanol o flaen y lleoliad yn cynnig lle agored o fewn ffens ddiogel sydd dan glo pan mae'r plant allan yn chwarae.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau dan do ac yn yr awyr agored sydd o safon dda ac yn addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau

bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn cefnogi'r plant i fod yn annibynnol yn eu chwarae. Er enghraifft, byrddau a seddau isel, stepiau i helpu ymestyn y sinc a chyllell a jygiau sy'n addas i ddwylo bach.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn cyflawni ei dyletswyddau arwain yn briodol ac mae lles y plant a'r ymarferwyr yn flaenoriaeth ganddi. Mae gan arweinwyr ddatganiad o ddiben boddhaol a chyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae ganddynt amrywiaeth o bolisïau addas sy'n cael eu gweithredu'n ymarferol, ar y cyfan. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr yn gyson ac yn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth yn gyson. Fodd bynnag, nid yw trafodaethau un-i-un bob amser yn cael eu ffurfioli a'u cynnal yn rheolaidd. Nid oes system ar waith i sicrhau bod yr arweinydd yn cael cyfarfodydd un-i-un. Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio ond nid yw'r prosesau hynny'n ddigon cadarn. Nid ydynt wedi sicrhau bod y prosesau recriwtio yn drylwyr nac ychwaith yn cael eu monitro'n effeithiol, ac o ganlyniad, nid yw'r gwiriadau'n bodloni'r gofynion.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol, ac o ganlyniad, maent yn ymwybodol o feysydd sydd angen eu datblygu. Mae ganddynt gysylltiadau pwrpasol ag athrawon ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, er enghraifft trwy fynychu hyfforddiant buddiol. Maent hefyd yn gweithio'n agos â swyddogion mudiadau cefnogi, sy'n cynnig arweiniad eang a defnyddiol i'r ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos â'r gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn sirol i sicrhau eu bod yn cefnogi'r plant yn effeithiol. Maent yn agored iawn i dderbyn pob cyngor ac yn barod i addasu eu darpariaeth yn sgil mewnbwn arbenigwyr.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda iawn. Maent yn rhoi gofal a llesiant y plant wrth wraidd popeth ac maent wedi creu diwylliant cyfeillgar a gofalgar. O ganlyniad, mae'r plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad.

Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o'r grant datblygu'r blynyddoedd cynnar drwy sicrhau eu bod yn cyflogi ymarferwyr ychwanegol ac yn prynu adnoddau addas i gefnogi medrau'r plant. Maent yn defnyddio'r gyllideb yn effeithiol iawn, er enghraifft drwy fuddsoddi mewn gwelliannau i'r ardal allanol. Mae gan ymarferwyr berthynas dda â rhieni a gofalwyr, ac maent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i'w hysbysu am weithgareddau.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2025